# Anabledd Dysgu Cymru Adolygiad Blynyddol

Ebrill 2022 - Mawrth 2023



**Rydym eisiau i Gymru fod y wlad orau i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio**

**Tu fewn: Pobl yr 21ain Ganrif, Engage to Change, Hawdd ei Ddeall Cymru, Ffrindiau Gigiau Cymru, dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant a digwyddiadau, Senedd Ieuenctid Cymru, cefnogi rhieni ag anabledd dysgu, gwiriadau iechyd blynyddol, a llawer mwy**

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Negeseuon o groeso | 3 |
| Ein staff | 5 |
| Hawdd ei Ddeall Cymru | 6 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | 8 |
| Dylanwadu ar bolisi | 10 |
| Engage to Change | 12 |
| Ffrindiau Gigiau Cymru | 15 |
| Pobl yr 21ain Ganrif | 18 |
| Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau | 22 |
| Sut y gwnaethon ni wario ein harian | 23 |
| Ein blwyddyn mewn rhifau | 24 |
| Ein blwyddyn mewn lluniau | 26 |





## Cadw mewn cysylltiad

Anabledd Dysgu Cymru, 41 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG Ffôn: 029 2068 1160
www.adcymru.org.uk

Cwmni cyfyngedig drwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestru TAW: 762 4559 11

| | | |
|---|---|---|
| | **E-bost** | enquiries@ldw.org.uk |
| | **Facebook** | /learningdisabilitywales |
| | **Twitter** | @LdWales |
| | **YouTube** | /@LearnDisabilityWales |
| | **LinkedIn** | /learning-disability-wales |





# Neges o groeso

## gan ein Cadeirydd, Jon Day

### Uchafbwyntiau

- **Rydyn ni'n ystyried ffyrdd o sicrhau y bydd digon o arian gyda ni yn y dyfodol i wneud ein gwaith.**
- **Mae tîm gwych gyda ni sy'n gweithio'n galed i wella pethau i bobl ag anabledd dysgu.**

**Mae dau bwrpas i adroddiad cadeirydd – sef edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol, ac edrych ymlaen, eto. Mae'r tudalennau canlynol yn tynnu sylw at y gwaith ffantastig a gyflawnwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, felly bydda i'n canolbwyntio ar y dyfodol.**

Unwaith eto, bydd y blynyddoedd i ddod yn dod â llawer o newidiadau (fel pe bai'r blynyddoedd diwethaf heb achosi digon o newidiadau i ni a chymdeithas yn barod). Fodd bynnag, gyda'r etholiad cenedlaethol a ddisgwylir y flwyddyn nesaf, ac yna etholiadau'r Senedd yn 2026, bydd pethau'n edrych yn wahanol iawn, gyda gwahanol arweinwyr a pholisïau. Yr hyn a fydd yn gyffredin fydd y pwysau ariannol y bydd y wlad yn eu hwynebu.

Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yr effaith ar Anabledd Dysgu Cymru, yn yr un modd â sefydliadau eraill. Fodd bynnag, rydyn ni eisoes yn cael sgyrsiau am sut y gallwn ni fod yn fwy creadigol ac arloesol o ran y cyllid rydyn ni yn ei ddenu - a sut mae hyn yn ein galluogi i barhau â'r gwaith eithriadol y mae'r tîm yn ei wneud yma bob dydd.



Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi recriwtio'n dda yn ddiweddar, ac fel cyflogwr, mae'n cynnig gwerthoedd cryf ac amodau a thelerau deniadol. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i ychwanegu at ein tîm hynod dalentog ac arloesol, sy'n rhoi o'u gorau i wella bywydau pobl ag anabledd dysgu.

Mae rhaid i ni ychwanegu at hyn gyda blwyddyn gref arall o recriwtio i'n bwrdd ymddiriedolwyr er mwyn i ni allu cefnogi'r tîm gyda llywodraethu cadarn a phriodol.

Efallai bod y dyfodol yn anhysbys, ond rwy'n credu bod y dyfodol yn obeithiol.



# Neges o groeso

## gan ein Prif Weithredwr, Zoe Richards

### Uchafbwyntiau

- **Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i wella bywydau pobl ag anabledd dysgu.**
- **Rydyn ni wedi cymryd camau i sicrhau bod Anabledd Dysgu Cymru'n lle da i weithio.**



Y flwyddyn hon, rydyn ni wedi treulio mwy o amser nag erioed o'r blaen yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni canlyniadau gwell yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni wedi cadarnhau perthnasoedd hirsefydlog a gwneud cysylltiadau newydd i rannu ein gwaith yn ehangach a chynyddu ein cyrhaeddiad. Rydyn ni'n arbennig o dda am gysylltu pobl i rannu'r gwaith gwych sy'n digwydd ledled Cymru a chynhyrchu atebion i rai o'r pethau sy'n ein dal ni yn ôl ac yn creu rhwystrau i bobl ag anabledd dysgu. Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb ein haelodau a'n rhanddeiliaid a hoffwn i ddiolch i chi i gyd am eich cyfraniadau parhaus.

Mae gofalu am ein tîm yn bwysig i ni, a thros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cymryd camau i sicrhau bod Anabledd Dysgu Cymru'n parhau i fod yn lle da i weithio:

- Gwnaethon ni gofleidio ein model gweithio hybrid newydd, lle gall ein tîm rannu eu hamser rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio gartref.
- Gwnaethon ni addasu ein hadeilad yng Nghaerdydd yn swyddfa fodern gyda chyfarpar da lle gall y tîm gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn ddigidol neu gymysgedd o'r 2. Cafodd ein hystafell gyfarfod ei hailwampio ac mae bellach ar gael i'w llogi: [ldw.org.uk/cy/training-room-hire](ldw.org.uk/cy/training-room-hire).

Rydyn ni am fod yn gyflogwr teg, gyda thîm o staff amrywiol sy'n cael eu cefnogi'n dda. I barhau â'r gwaith hwn, gwnaethon ni'r canlynol:

- Cynnal adolygiad cyflog i sicrhau bod ein cyflogau'n gystadleuol o'u cymharu â sefydliadau tebyg yn y trydydd sector yng Nghymru.
- Hyfforddi ein tîm ynghylch ymwybyddiaeth ddiwylliannol, addasu ein harferion gwaith, ac yn gweithio tuag at ennill Tystysgrif Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru.

Gobeithio eich bod yn mwynhau darllen yr arolygiad blynyddol hwn, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi i gyd yn y dyfodol.

# Ein staff

## Polisi a Chyfathrebu

Kai Jones
Swyddog Cyfathrebu

Grace Krause
Swyddog Polisi

Samantha Williams
Rheolwraig Polisi a Chyfathrebu

Taylor Florence
Cynorthwy-ydd Cyfathrebu (tan fis Mawrth 2023)

## Hyfforddiant a Digwyddiadau

Simon Rose
Rheolwr Digwyddiadau a Rhwydweithiau

Inacia Rodrigues
Cydlynydd Digwyddiadau a Rhwydweithiau (tan fis Tachwedd 2022)

Lucy O'Leary
Cydlynydd Digwyddiadau a Rhwydweithiau (o fis Mawrth 2023)

## Hawdd ei Ddeall Cymru

Laura Griffiths
Uwch Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

Inacia Rodrigues
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

Julie Jones
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

Rhian McDonnell
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch (o fis Awst 2022)

Zoe Richards
Prif Swyddog Gweithredol

## Engage to Change

Angela Kenvyn
Rheolwr Prosiect

Sophie Williams
Swyddog Cyfathrebu (tan fis Rhagfyr 2022)

Geraint Jones-Griffiths
Llysgennad

## AD a Chyllid

Zhanar Tabeyeva
Rheolwr Cyllid

Joanne Moore
Rheolwr Adnoddau Dynol a Llywodraethiant

## Ffrindiau Gigiau Cymru

Kai Jones
Cydlynydd De Cymru

Karen Warner
Rheolwr Arloesedd

Kylie Smith
Cydlynydd De Cymru

Rachel Somerville
Cydlynydd Gogledd Cymru (tan fis Mawrth 2023)

Heather Graham
Llysgennad (tan fis Mawrth 2023)

Danielle Wagstaff
Cydlynydd Gweinyddu a Chyfathrebu

Sian Lloyd-Davies
Cydlynydd Gogledd Cymru (o fis Ionawr 2023)

## Tîm Cefnogaeth

Iwan Good
Cydllynydd Aelodaeth, Digwyddiadau ac Ymgysylltu (o fis Awst 2022)

Nicola Alsept
Gweinyddydd Cyllid (o fis Awst 2022)

Michael Allcock
Glanhawr Swyddfa (o fis Gorffenaf 2022)

## Uchafbwyntiau

- **Gwnaethon ni dros 140 o ddogfennau hawdd eu deall ar gyfer mwy na 40 o sefydliadau.**
- **Rydyn ni'n gwneud adnoddau hawdd eu deall newydd am frechu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
- **Rydyn ni'n diweddaru ein canllawiau newydd ar gyfer gwneud y Gymraeg yn hawdd ei deall.**
- **Byddwn ni'n gwneud adnoddau hawdd eu deall am ddim am y menopos, a pherthnasoedd.**

Gwnaethon ni ehangu ein tîm i ateb y galw mawr, a gwnaethon ni groesawu Rhian, dylunydd â diddordeb arbennig mewn hygyrchedd digidol. Mae Rhian wedi ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth hawdd ei deall rydyn ni'n ei chynhyrchu yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio darllenwyr sgrin.

Cynhalion ni grŵp ffocws gyda Phobl yn Gyntaf Caerffili i wirio ansawdd ein gwaith hawdd ei ddeall. Rydyn n'n diweddaru'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau ar sail yr hyn a ddywedodd pobl wrthon ni.




Gwnaethon ni barhau i weithio gyda llawer o sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub, byrddau iechyd, a Chyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda chynghorau, prifysgolion, ac rydyn n'n gwneud mwy o waith i sefydliadau yn Lloegr.

Rydyn ni'n croesawu adborth. Mae dolen gyda ni erbyn hyn ar bob un o'r dogfennau rydyn ni'n eu cynhyrchu er mwyn i bobl allu dweud wrthon ni beth maen nhw'n ei feddwl am ein gwaith hawdd ei ddeall. Gallwch chi gysylltu â ni yn [ldw.org.uk/cy/hawdd-ei-ddeall-cymru](ldw.org.uk/cy/hawdd-ei-ddeall-cymru).

## Hawdd ei ddeall yn Gymraeg

Gwnaethon ni ddechrau grŵp newydd i'n helpu i ddiweddaru ein Canllawiau Hawdd ei Ddeall ar gyfer y Gymraeg a gwella sut rydyn ni'n gweithio yn Gymraeg. Mae'r grŵp yn cael ei gefnogi gan bobl ag anabledd dysgu sy'n siarad Cymraeg, Comisiynydd y Gymraeg, Iaith, cyfieithwyr dogfennau hawdd eu deall Cymraeg ac ymddiriedolwyr Anabledd Dysgu Cymru.




## Prosiect brechu

Gwnaethon ni ddechrau gweithio ar brosiect mawr gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwelliant Cymru i greu adnoddau hygyrch am frechu. Gofynnon ni i bobl beth oedden nhw'n feddwl am frechu trwy weithio gyda grwpiau Pobl yn Gyntaf, grŵp ffocws ar-lein ac arolwg hawdd ei ddeall. Y canlyniad fydd canllaw hawdd ei deall a fideo.




## Adnoddau hawdd eu deall am ddim

Rydyn ni wedi dechrau gwneud adnoddau hawdd eu deall am ddim am bynciau sydd eu hangen ar bobl ond sy'n anodd iddyn nhw ddod o hyd i wybodaeth o ansawdd da amdanyn nhw. Ar ôl gofyn i bobl am beth maen nhw ei eisiau, byddwn ni'n gwneud dau adnodd: Y Menopos, a Sut i gael perthynas.




Rydyn ni'n gweithio gyda the Sex Education Company, Ymddiriedolaeth Innovate Trust, The Menopause Charity, a Thriniaeth Deg i Fenywod Cymru i greu'r adnoddau hyn.

# Hyfforddiant a digwyddiadau

**Uchafbwyntiau**

- **Cynhalion ni ein cynhadledd flynyddol wyneb yn wyneb gyntaf ers 3 blynedd.**
- **Yn y gynhadledd, gwnaethon ni rannu storïau am yr hyn y gwnaethon ni ei ddysgu o'r pandemig.**
- **Daeth 240 o bobl i'r gynhadledd yng Nghasnewydd a Chyffordd Llandudno.**
- **Cynhalion ni ddigwyddiadau ar-lein i drafod sut y gallwn ni wneud y celfyddydau'n fwy cynhwysol i bobl sy'n profi hiliaeth.**
- **Cynhalion ni ddau ddigwyddiad gyda RNIB a oedd yn archwilio sut mae colli golwg yn gallu effeithio ar ymddygiad pobl.**

## Y gynhadledd flynyddol – 'Lle rydym yn mynd o'r fan hyn?'

Daeth ein cynhadledd flynyddol â phobl ynghyd i drafod yr hyn y gwnaethon ni ei ddysgu o'r pandemig, a sut rydyn ni'n gallu gwella pethau yn y dyfodol.

Gwnaeth 240 o bobl ymuno â ni ar gyfer y digwyddiadau yng Nghasnewydd a Chyffordd Llandudno, sef ein cynhadledd wyneb yn wyneb gyntaf ers 3 blynedd.

Clywson ni rai straeon a oedd yn peri gofid mawr, am sut yr effeithiwyd ar hawliau pobl oherwydd arferion cyfyngol. Roedd straeon eraill yn myfyrio ar yr effeithiau cadarnhaol, megis sut y gwnaeth pobl ddysgu sgiliau digidol newydd a gwneud ffrindiau newydd diolch i dechnoleg.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS, annerch y gynhadledd. Gwnaeth hi gydnabod sut mae'r pandemig wedi cael






mwy o effaith ar bobl ag anabledd dysgu nag ar lawer o bobl eraill, a siaradodd hi am y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni Anabledd Dysgu – sef polisïau Llywodraeth Cymru sy'n anelu at wneud Cymru'n well i bobl ag anabledd dysgu.

Roedd siaradwyr a gweithdai gyda ni hefyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

- Cysylltu Bywydau
- Herio Mesur Hawliau'r DU
- Gwiriadau iechyd
- Cyflogaeth
- Profiad teulu o'u plentyn yn bod mewn Uned Asesu a Thriniaeth.

Gallwch chi weld fideos ac adnoddau o'r gynhadledd ar ein gwefan yn [ldw.org.uk/OFanHyn](ldw.org.uk/OFanHyn).

**Gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall**
Gwnaethon ni gyflwyno ein cwrs poblogaidd 8 gwaith y flwyddyn hon.

**Deall colli golwg a'i effaith ar ymddygiad**
Mewn partneriaeth â RNIB, cynhalion ni 2 sesiwn i gynyddu ymwybyddiaeth o gyflyrau llygaid cyffredin, a'u cysylltiadau ag ymddygiadau posibl.

**Cynhwysiant a hygyrchedd yn y celfyddydau**
Rydyn ni'n gweithio gyda Hijinx a Chelfyddydau Anabledd Cymru i wella mynediad i'r celfyddydau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a phobl niwroamrywiol sy'n dod o gymunedau sy'n profi hiliaeth. Cynhalion ni 3 ymgynghoriad ar-lein.

**Ymgynghoriad ar Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid**
Gan fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel ei gilydd yn ymgynghori ynghylch rheoliadau newydd a fydd yn disodli'r Diogeliadau Amddifadu o Ryddid a newid rhannau o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, daethon ni â phobl ynghyd i rannu eu barn.

# Dylanwadu ar bolisi



## Uchafbwyntiau

- **Gwnaethon ni ymateb i fwy na 20 o ymgynghoriadau.**
- **Roedd y materion y gwnaethon ni weithio arnyn nhw'n cynnwys ailagor gwasanaethau dydd ar ôl y pandemig, yr argyfwng costau byw a'r Cynllun Gweithredu Anabledd Dysgu newydd.**
- **Buon ni'n siarad am faterion yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu, y Grŵp Polisi Anabledd Dysgu, a'r Consortiwm Anabledd Dysgu.**
- **Gwnaethon ni gwrdd yn aml â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
- **Gwnaethon ni helpu pobl i rannu eu straeon o'r pandemig gydag Astudiaeth Covid y DU.**

## Ymgynghoriadau

Gwnaethon ni ymateb i dros 20 o ymgynghoriadau, gan sicrhau bod hawliau pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cefnogwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau, canllawiau ac ymarfer newydd. Gwnaethon ni ailddechrau mynd i fwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb y flwyddyn hon, gan gynnwys cynadleddau a rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd.



## Grŵp Polisi Anabledd Dysgu

Gwnaethon ni barhau i gynnal y Grŵp Polisi Anabledd Dysgu; gwnaethon ni hwyluso 4 cyfarfod, a oedd yn trafod materion megis ailagor gwasanaethau dydd, yr argyfwng costau byw a'r Cynllun Gweithredu Anabledd Dysgu.

## Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu

Fel aelodau o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu, aethon ni i'r cyfarfodydd chwarterol i drafod materion penodol, gan gynnwys sut i fwrw ymlaen â Chynllun Gweithredu Anabledd Dysgu newydd Llywodraeth Cymru.



## Y Consortiwm Anabledd Dysgu

Gwnaethon ni gydlynu cyfarfodydd diweddaru gyda'r Consortiwm Anabledd Dysgu, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i godi materion sy'n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu, a'u teuluoedd a'u cefnogwyr yng Nghymru.

## Prosiect ymchwil ar Covid-19

Sicrhawyd cyllid ychwanegol o'r DU ar gyfer rownd arall o ymchwil. Ni chafodd unrhyw gyfranogwyr newydd eu recriwtio ond gwnaethon ni annog y cyfranogwyr presennol yng Nghymru i gymryd rhan a hyrwyddo'r astudiaeth. O ganlyniad, gwnaeth Cymru gyfrannu swm sylweddol o ddata at yr ymchwil derfynol.

Gwnaethon ni barhau i gwrdd â phartneriaid yn y prosiect ac rydyn ni'n trefnu digwyddiad yn hydref 2023 i rannu canlyniadau'r astudiaeth a sut mae'r ymchwil yn gallu helpu i lywio gofal a chymorth yn y dyfodol.

## Rhoi gwybod i chi

Gwnaethon ni gynyddu ein cyfathrebiadau a'n hymgysylltiad trwy ein gwefan a thrwy rannu'r newyddion a'r adnoddau diweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethon ni ailddechrau cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb i hybu ein gwaith, casglu a rhannu gwybodaeth, a dysgu sut mae bywyd i bobl ag anabledd dysgu ers y pandemig.

Roedd y pynciau sydd wedi cael sylw ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

- Datganiad ar y cyd ar newidiadau arfaethedig i gynlluniau Llywodraeth y DU i wahardd therapi trosi.
- Cynllun Gweithredu Anabledd Dysgu newydd Llywodraeth Cymru.
- Anghydraddoldebau iechyd
- Senedd Ieuenctid Cymru.

# Engage to Change

engagetochange.org.uk
engagetochangewales
@Engage_2_Change

## Uchafbwyntiau

- Mae 41% o'r bobl gwnaethon ni eu cefnogi wedi cael swyddi (hyd at fis Awst 2023).
- Cynhalion ni ddigwyddiadau yng ngogledd Cymru a de Cymru i ddathlu'r hyn mae Engage to Change wedi'i gyflawni.
- Rydyn ni wedi helpu i sicrhau y bydd mwy o bobl bellach yn cael cymorth hyfforddwr swyddi.
- Rydyn ni wedi stopio cymryd cyfeiriadau erbyn hyn.
- Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi darparu cyllid i barhau â'n gwaith polisi a'n gwaith etifeddol tan fis Tachwedd 2024.

**Dechreuodd y broses o gau Engage to Change fesul cam yn ystod y 7fed flwyddyn hon o'r prosiect gyda chyfeiriadau a chanlyniadau'n lleihau'n raddol.**

Roedd pobl ifanc yn parhau i gael cymorth i gynyddu eu sgiliau cyflogadwyedd a chael swydd â thâl. Wrth i ni ysgrifennu'r adroddiad hwn yn haf 2023, y nifer sydd wedi cael gwaith yw 429 – sef 41% o'r bobl sydd wedi cael eu cefnogi gan y prosiect.

Gwnaeth ein Llysgennad Arweiniol, Gerraint Jones-Griffiths, ynghyd â phobl eraill sy'n cymryd rhan yn y prosiect, ddechrau gweithio gyda'r Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol (NCMH) a'n swyddog cyfathrebu llawrydd i gynhyrchu fideos hygyrch o'r adroddiadau ymchwil.

Cawson ni nifer o enwebiadau ar gyfer ein gwobrau i gyflogwyr. Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno ar ôl i Fforwm Gwerthuso'r prosiect ddewis enillydd ar gyfer pob categori.

Cyhoeddodd ein Llysgennad Arweiniol flogiau misol ac awgrymiadau gwych ar gyfer gwaith ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Engage to Change.






Cynhalion ni ddigwyddiadau dathlu llwyddiannus yng ngogledd a de Cymru. Daeth tua 100 o bobl ifanc, aelodau o'u teuluoedd a staff i bob digwyddiad. Cyflwynwyd gwobrau i lysgenhadon a hyrwyddwyr y prosiect, gyda pharti wedyn.

Cyhoeddodd ein tîm gwerthuso yn y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH) ym Mhrifysgol Caerdydd y cyntaf o 6 adroddiad gwerthuso sydd i fod i gael eu cyhoeddi yn y flwyddyn olaf. Mae'r holl adroddiadau i'w gweld yn [www.engagetochange.org.uk/news/ymchwil.](www.engagetochange.org.uk/news/ymchwil)

## Taith Tom Oakes gydag Engage to Change



Mae Tom yn 25 ac mae'n caru arlunio, y celfyddydau perfformio a choginio. Ar ôl gadael y coleg, roedd Tom eisiau gwaith cyflogedig a oedd yn bodloni ei ddiddordebau a'i alluoedd, ac a fyddai'n rhoi annibyniaeth, sefydlogrwydd ariannol a thwf personol iddo fe.

Ar ôl cysylltu ag Engage to Change, cafodd Tom ymweliad gan Bethan, sy'n Swyddog Cyflogaeth, a drafododd y prosiect a'r cymorth yr oedd yn ei gynnig. Gydag arweiniad Bethan, gwnaeth Tom gais am swydd gydag Ysbyty Bronglais, lle dechreuodd e weithio yn y gegin yn 2018.

Ymaddasodd Tom i'w rôl newydd a dysgodd sgiliau newydd. Roedd ymweliadau wythnosol Bethan yn rhoi cefnogaeth a sicrwydd gwerthfawr iddo fe yn ystod y cyfnod hwn.

Ar ôl chwe mis, a gyda chymorth Bethan, penderfynodd Tom ei fod am gael her newydd. Gyda chymorth Bethan, cafodd e gyfweliad llwyddiannus ar gyfer rôl cynorthwyydd cegin gyda Wetherspoons yn Aberystwyth, a roddodd gyfrifoldebau newydd iddo fe.

Yn ystod y pandemig Covid rhoddwyd Tom ar ffyrlo. Er gwaethaf yr aflonyddwch, defnyddiodd e'r amser hwn i ganolbwyntio ar wella ei hun, a chroesawodd fesurau diogelwch newydd pan ddychwelodd e i'r gwaith.

Mae Tom bellach yn gweithio i Wetherspoons am fwy na thair blynedd, ac mae'n dal i fwynhau ei waith. Mae'n gwerthfawrogi'r amgylchedd gwaith cefnogol ac mae'n cadw mewn cysylltiad â Bethan am unrhyw gymorth sydd ei angen. Mae Tom yn dweud bod cyflogaeth drwy Engage to Change wedi newid ei fywyd.

## Gwaith ar bolisi cyflogaeth

Cawson ni ymweliadau gan Hefin David AS a Jayne Bryant AS, a gyfarfu ag interniaid a chyn interniaid sydd bellach yn cael eu cyflogi ym Mhrifysgol Caerdydd. Gwnaethon ni hefyd drafod y prosiect a throsglwyddo i gyflogaeth. Hefyd, cafodd ein Rheolwr Prosiect, Angela Kenvyn, ei chyfweld gan Hefin David ar gyfer adroddiad yr oedd e'n ei ysgrifennu i Lywodraeth Cymru am drosglwyddo i gyflogaeth.

Cawson ni gyfarfodydd gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru am gymorth hyfforddwyr swyddi. Ar ran y prosiect, cododd Hefin David y mater yn y Senedd am gymorth hyfforddwyr swyddi ar gyfer pobl ag anabledd dysgu dros 25 oed. Ymatebodd Vaughan Gething AM, Gweinidog yr Economi, gan ddweud bod cymorth hyfforddwyr swyddi wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau ar ôl cwrdd ag Anabledd Dysgu Cymru.

Gwnaethon ni gymryd rhan yng Ngweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru, Fforwm Mynediad at Waith Cymru, a pharhau i weithio gyda Thîm Trawsnewid Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i gyd-gynhyrchu strategaeth gyflogaeth 5 mlynedd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mynychodd Gerraint, ein Llysgennad Arweiniol, y Grŵp Trawsbleidiol Anabledd Dysgu a Grŵp Llywio Ymgynghorol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.

**Dylanwadodd ein gwaith polisi ar y pethau hyn:**

- Mae cymorth hyfforddwyr swyddi bellach ar gael ar gyfer Twf Swyddi Cymru a Mwy ac mae'r ystod oedran wedi ei chynyddu i 19 oed.
- Llywodraeth Cymru yn ariannu cymorth hyfforddwyr swyddi ar gyfer prentisiaethau â chymorth a phrentisiaethau â chymorth a rennir.
- Ehangu interniaethau â chymorth yng Nghymru, gyda phob coleg Addysg Bellach yn cyflwyno 1 rhaglen neu fwy erbyn hyn. Bu ein Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda Cholegau Cymru a cholegau AB i ddatblygu safonau ansawdd a chanllawiau. Rhoddodd ein Fforwm Gwerthuso adborth ar y ddogfen ddrafft.

Ym mis Mawrth 2023, llwyddodd Anabledd Dysgu Cymru ac NCMH i gyflwyno cynnig ar gyfer cyllid ychwanegol i barhau â'n gwaith dylanwadu a hysbysu tan ddiwedd mis Tachwedd 2024.



# Ffrindiau Gigiau Cymru

www.gigbuddies.cymru

Rydyn ni mor falch o bopeth mae Ffrindiau Gigiau Cymru wedi'i gyflawni'r flwyddyn hon, yn enwedig sut rydyn ni'n helpu pobl i wneud ffrindiau newydd, mwynhau bywydau cymdeithasol llawn, a chynyddu eu hannibyniaeth.

Mae galw mawr am Ffrindiau Gigiau Cymru. Y flwyddyn hon, roedd rhaid inni oedi ceisiadau gan ymgeiswyr newydd er mwyn i ni allu canolbwyntio ar chwilio am Ffrindiau Gigiau i'r bobl sy'n aros.



## Uchafbwyntiau

- **Dathlu ein pen-blwydd yn 5 oed. Dyma ein fideo dathlu difyr: https://bit.ly/GB5thBirthday**
- **Ailgynllunio ein hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr, er mwyn iddo gael ei gyflwyno wyneb yn wyneb yn fwy lleol ac ar-lein. Cafodd 29 o wirfoddolwyr eu hyfforddi ☺.**
- **Cael sylw gwych yn y cyfryngau – ar BBC Cymru Fyw bbc.co.uk/cymrufyw/62833511.**
- **Roedd 12 o bobl yn rhedeg droson ni yn Hanner Marathon Caerdydd, gan godi swm anhygoel o £8,500!**
- **Cwrdd â sefydliadau celfyddydol a lleoliadau lleol ledled Cymru i helpu i gynyddu mynediad i'r celfyddydau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.**
- **Cwrdd yn fisol â phrosiectau Stay Up Late a phrosiectau Ffrindiau Gigiau eraill ledled y DU ac Awstralia, i rannu syniadau a datrys problemau. Ym mis Hydref, gwnaethon ni gwrdd wyneb yn wyneb ym Mryste.**

Learning Disability Wales / Anabledd Dysgu Cymru
FCHA
LLOYDS BANK FOUNDATION England & Wales
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd / North Wales Together
STAY UP LATE
Gwirfoddoli Cymru / Volunteering Wales
WCVA / CGGC
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Cyngor sir ddinbych / denbighshire County Council

# Ffrindiau Gigiau  Cymru




## De Cymru

**(Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, RhCT, Bro Morgannwg)**

I helpu i ddod o hyd i barau naturiol, cynhalion ni sawl digwyddiad ‘cymdeithasu cyflym’, lle’r oedd cyfranogwyr a gwirfoddolwyr yn cwrdd ac yn cymdeithasu.



Cynhalion ni ddigwyddiadau cymdeithasol yng Nghaerdydd, y Barri, a Phorthcawl, gan gynnwys gŵyl indi-pop, cymanfa ganu sioeau cerdd, Drag Syndrome, Pride Cymru, a chynhalion ni ddangosiad arbennig o’r ffilm ‘Heavy Load’ (sy’n adrodd hanes o sut y cafodd Stay Up Late a Ffrindiau Gigiau eu creu).




Buon ni’n gweithio’n galed i chwilio am wirfoddolwyr newydd trwy ffeiriau gwirfoddolwyr cynghorau sir, ffeiriau glas colegau, stondinau mewn digwyddiadau cerddorol (gan gynnwys Diana Ross a Florence and the Machine), Pride Cymru, dosbarthu taflenni mewn cymunedau, a gwefan Gwirfoddoli Cymru.

**Gwirfoddolwch fel Ffrind Gigiau**
**gigbuddies.cymru**





## Gogledd Cymru

**(Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam)**

Cynhalion ni lawer o ddigwyddiadau cymdeithasol ledled gogledd Cymru, gan gynnwys gŵyl FOCUS Cymru, dangosiad o'r 'Rocky Horror Picture Show', gŵyl gerdd Philfest ar Ynys Môn, a chyfleoedd i gwrdd mewn caffis a thafarndai.

Buon ni'n gweithio'n galed i recriwtio gwirfoddolwyr trwy gwrdd â phresgripsiynwyr cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, mynd i ffeiriau cynghorau gwirfoddol sirol, stondinau yn ffeiriau gleision Prifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam, gwefan Gwirfoddoli Cymru, dosbarthu taflenni a rhwydweithio.

Cawson ni help gan Mark Jones, un o'n gwirfoddolwyr, gyda materion trafnidiaeth, a dechreuon ni recriwtio ar gyfer Cydlynydd Gwirfoddolwyr.

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaethon ni ffarwelio â Rachel a Heather, a chroesawon ni Siân Lloyd-Hughes, ein Cydlynydd Prosiect newydd ar gyfer gogledd Cymru. Hoffen ni ddweud "diolch yn fawr iawn" wrth Rachel a Heather am eu gwaith caled anhygoel ac angerddol ers i ni ddechrau Ffrindiau Gigiau yng ngogledd Cymru.






## Jane ac Emma, Ffrindiau Gigiau (Wrecsam)

**Jane:** Dw i wrth fy modd bod fy Ffrind Gigiau, Emma, gen i. Dw i'n dwlu ar fynd allan. Dw i'n mwynhau fy hun, yn cael hwyl ac yn teimlo'n fwy ymlaciol. Dw i'n dod yn fwy hyderus wrth roi cynnig ar bethau mewn lleoedd sy'n bellach i ffwrdd. Mae Emma a finnau wedi bod i Gaer, wedi chwarae golf gwyllt, wedi mynd am dro. Hoffen ni fynd allan yn fwy aml gyda'r hwyr, megis mynd i gyngerdd.

**Emma:** Roeddwn i'n newydd i'r ardal, ac yn awyddus i wneud ffrindiau newydd. Dydi bod yn Ffrind Gigiau ddim yn teimlo fel gwirfoddoli – mae'n teimlo fel bod gyda fy mêt. Mae Jane wedi dangos yr ardal imi, a beth sy'n digwydd yn Wrecsam. Dw i'n hoffi bod yn rhan o'r gymuned a chwrdd â phobl eraill yn Ffrindiau Gigiau hefyd.

# Pobl yr 21ain Ganrif

## Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni helpu rhieni ag anabledd dysgu i siarad ag Aelodau'r Senedd am eu bywydau.
- Gwnaethon ni gefnogi 2 aelod anabl o Senedd Ieuenctid Cymru i siarad o blaid pobl ifanc anabl eraill.
- Gwnaethon ni helpu i greu grŵp newydd sy'n dod ag Aelodau'r Senedd ynghyd i helpu i wella pethau i bobl ag anabledd dysgu.
- Cafodd y pecyn adnoddau hawdd ei ddarllen a wnaethon ni ar gyfer meddygon ei lansio o'r diwedd.
- Gwnaethon ni helpu i gyflwyno gweithdai i helpu pobl i ddeall beth yw arferion cyfyngol a sut i'w lleihau.

Mae Pobl yr 21st Ganrif wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae yn ei thrydedd flwyddyn erbyn hyn. Mae'n dathlu pobl ag anabledd dysgu fel crewyr, cyfranwyr a dinasyddion Cymru, tra'n herio ystrydebau presennol. Rydyn ni'n falch bod cyllid wedi'i ymestyn tan fis Mawrth 2025.



## Teuluoedd yr 21ain Ganrif

### Rhieni ag anabledd dysgu

Rydyn ni'n cefnogi grŵp Rhieni Pobl yn Gyntaf Bro Morgannwg i gwrdd yn rheolaidd a rhannu gwybodaeth a phrofiad. Gwnaethon ni gwrdd â Llywodraeth Cymru a'r Athro Ruth Northway o Brifysgol De Cymru i drafod canllawiau newydd ynghylch cefnogi rhieni ag anabledd dysgu. Gwnaethon ni wahodd rhieni o'r grŵp i siarad am y canllawiau mewn cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol, ac ysgrifennon ni at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gyhoeddi'r canllawiau cyn gynted â phosibl.

### Hyfforddiant ar gyfer gofalwyr teuluol mewn partneriaeth â Cerebra

Cyflwynon ni seminar ar-lein gydag adnoddau am ddim ar gyfer rhieni a gofalwyr, yn eu helpu i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus i'w hanwyliaid.

# Lleisiau'r 21ain Ganrif

SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT
SEFYDLIAD PARTNER
PARTNER ORGANISATION

## Senedd Ieuenctid Cymru



Gwnaethon ni gefnogi 2 o bobl ifanc anabl yn eu hail flwyddyn fel Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru. Roedd Georgia a Tegan yn rhan o'r pwyllgor 'Ein hiechyd meddwl a'n lles', a gwnaethan nhw gyfrannu at yr adroddiad 'Meddyliau Iau o Bwys', a dynnodd sylw at y diffyg cynnydd o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac a roddodd argymhellion i wella mynediad, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

## Hyfforddiant hawdd ei ddeall



Gwnaethon ni barhau i gynnig ein sesiynau blasu hawdd ei ddeall poblogaidd, gyda 10 sesiwn am ddim ar gyfer tua 150 o weithwyr proffesiynol o'r sectorau elusennol a chyhoeddus.

## Polisi a phobl – y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu



Yn dilyn trafodaethau gydag aelodau eraill o'r Consortiwm Anabledd Dysgu, gwnaethon ni sefydlu Grŵp Trawsbleidiol newydd ar Anabledd Dysgu, sy'n cynnwys 3 Aelod o'r Senedd. Cawson ni ein penodi'n gyd-Ysgrifenyddion, ochr yn ochr â Sara Pickard o Mencap Cymru. Gwnaethon ni gyflwyno 4 cyfarfod, gan archwilio pynciau megis gwiriadau iechyd blynyddol, yr argyfwng costau byw, a rhieni ag anabledd dysgu. Gwnaethon ni gynhyrchu cofnodion hawdd eu deall o bob cyfarfod, ac ysgrifennon ni at Weinidogion a byrddau iechyd lleol am y materion a godwyd.




# Pobl Iach yr 21ain Ganrif

## Gwiriadau iechyd blynyddol

Gwnaethon ni barhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hybu gwiriadau iechyd blynyddol. Cafodd y pecyn adnoddau ar gyfer meddygon teulu y gwnaethon ni ei gynhyrchu sawl blwyddyn yn ôl ei lansio ar-lein o'r diwedd ar gyfer staff gofal sylfaenol, ond rydyn ni'n parhau i ymgyrchu iddo fe fod ar gael yn adran Hawdd ei Ddarllen gwefan GIG 111 Cymru.

Gwnaethon ni drefnu cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu a ganolbwyntiodd ar wiriadau iechyd blynyddol. Gwnaethon ni ysgrifennu at fyrddau iechyd lleol a'r Gweinidog Iechyd am bwysigrwydd cyflogi hyrwyddwyr gwiriadau  iechyd ledled Cymru.

## Lleihau arferion cyfyngol

Gwnaethon ni weithio gyda Gwelliant Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno 5 gweithdy ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o arferion cyfyngol ymysg pobl ag anabledd dysgu a theuluoedd/ gofalwyr. Cyd-gyflwynodd ein Rheolwr Polisi a Chyfathrebu sesiwn am y gweithdai yng nghynhadledd y Rhwydwaith Lleihau Cyfyngiadau yn Birmingham. Yn hydref 2023 byddwn ni'n cynnal digwyddiad Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr proffesiynol, i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r gweithdai.

Fe wnaethon ni barhau i fynychu cyfarfodydd y Gymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol ar-lein. Bu ein Prif Swyddog Gweithredol yn cyd-gadeirio 4 cyfarfod o'r is-grŵp ymyrraeth gynnar ac argyfwng, gan gytuno ar y cylch gorchwyl a llunio cynllun gwaith.



# Byw yn yr 21ain Ganrif

## Cysylltiadau Cymru

Mae ein rhwydwaith o 180 o aelodau yn dod â phobl ynghyd i archwilio sut y gallwn ni leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Ym mis Gorffennaf, siaradodd llysgenhadon Stay Up Late am sut maen nhw'n ymgyrchu dros yr hawl i fyw bywydau llawn, a sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â'r mudiad Ffrindiau Gigiau. Arweiniodd hyn at fwy o ddiddordeb yn ein prosiect Ffrindiau Gigiau Cymru, a gwaith mwy lleol. Ym mis Mawrth, daethon ni â phobl ynghyd i archwilio cyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.




## Technoleg bersonol

Mae ein rhwydwaith o dros 100 o aelodau yn archwilio sut y gallwn ni gynyddu mynediad pobl ag anabledd dysgu at dechnoleg, mewn byd lle mae'n anodd gweithredu hebddi. Ym mis Mai, gwnaethon ni archwilio defnyddio technoleg i gael mynediad at ofal iechyd, gan gynnwys ap newydd y GIG. Buon ni hefyd yn cymryd rhan yn y Gynghrair Cynhwysiant Digidol.



## Addysg gynhwysol

Rydyn ni wedi parhau i gwrdd â grwpiau pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill i helpu i wneud addysg yn fwy cynhwysol. Yn 2024, byddwn ni'n cynnal digwyddiad sy'n archwilio ystyr addysg gynhwysol.

# Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau

## Ymddiriedolwyr

| **Cymuned Fuddiant** Cynrychiolwyr sy'n Aelodau llawn | **Nifer y seddi** | **Ymddiriedolwyr** | **Yn cynrychioli** | **Cyfnod y Swydd** |
|---|---|---|---|---|
| Darparwyr Oedolion | 2 | Steve Cox<br>Mandy Evans<br>Rhian Jones<br>Claire Higgins | Perthyn<br>mirus<br>Drive<br>Anheddau Cyf | Hyd at fis Ionawr 2023<br>Hyd at fis Ionawr 2023<br>O fis Ionawr 2023<br>O fis Ionawr 2023 |
| Hunaneiriolaeth | 2 | Joe Powell<br>Dawn Gullis<br>Angharad Williams | Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan<br>Pobl yn Gyntaf Caerdydd<br>Eiriolaeth Eich Llais | <br>Hyd at fis Mai 2022<br>O fis Ionawr 2023 |
| Gofalwyr Teuluol | 2 | Jacqui Caldwell<br>**Gwag** | Cyswllt Conwy | |
| Darparwyr Cymorth i Deuluoedd | 2 | Alison Thomas<br>Wayne Crocker | Grŵp Pobl<br>Mencap Cymru | |
| Cyflogaeth â Chymorth | 1 | **Gwag** | | |

| **Seddi Gwag** | **Nifer y seddi** | **Ymddiriedolwyr** |
|---|---|---|
| Unigolion â diddordeb | 5 (hyblyg) | Jon Day, Sian Owen, Laura White, Ian Benbow James Donaldson, Al Lewis, Lily Beyer |


## Cynghorwyr:

Steve Beyer a Kathryn Whitfield

## Aelodau


| Math o aelodaeth | Nifer yr aelodau |
|---|---|
| **Aelodau Llawn** | 88 |
| **Aelodau Cyswllt** | 208 |

# Sut y gwnaethon ni wario ein harian



## Yr arian a gawson ni'r flwyddyn hon

| Ffynhonnell yr arian | Swm |
|---|---|
| Prosiectau yn y DU | £1,281,825 (67.57%) |
| Grant Llywodraeth Cymru | £400,000 (21.08%) |
| Ymgynghori, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal | £186,218 (9.82%) |
| Hyfforddiant a Digwyddiadau | £15,797 (0.83%) |
| Rhoddion | £9,499 (0.50%) |
| Llog banc | £3,826 (0.20%) |
| **Cyfanswm** | **£1,897,165 (100.00%)** |




## Yr arian y gwnaethon ni ei wario'r flwyddyn hon


| | |
|---|---|
| Grantiau i Bartneriaid Prosiect yn y DU | £1,011,337 (56.30%) |
| Staff a theithio | £574,200 (31.97%) |
| Digwyddiadau prosiectau | £56,252 (3.13%) |
| Gofalu am ein hadeilad | £52,533 (2.92%) |
| Rhedeg y swyddfa | £26,425 (1.47%) |
| Cyrsiau a chynadleddau | £22,662 (1.26%) |
| Cyfieithu | £21,725 (1.21%) |
| Costau llawrydd | £17,724 (0.99%) |
| TAW na ellir ei hadennill | £7,072 (0.39%) |
| Ffioedd archwilio | £4,530 (0.25%) |
| Dibrisiad | £1,438 (0.08%) |
| Cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr | £407 (0.02%) |
| **Cyfanswm** | **£1,796,305 (100.00%)** |

# Ein blwyddyn mewn rhifau

## Dylanwadu ar bolisi



25 o ymatebion i ymgynghoriadau



4 cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol newydd ar Anabledd Dysgu



1 digwyddiad ymgynghori ar-lein am y Trefniadau Diogelu Rhyddid newydd

## Hawdd ei Ddeall Cymru



140 o ddogfennau



40 o gleientiaid




10 o sesiynau blasu am ddim

## Rhoi gwybod ichi



29,768 o ymwelwyr â'r wefan




Ymwelwyd â 68,293 o dudalennau gwefan

8,204 o ddilynwyr ar Twitter

5,637 o ddilynwyr ar Facebook

## Hyfforddiant a digwyddiadau



Daeth 240 o bobl i'n cynhadledd flynyddol yng Nghasnewydd a Chyffordd Llandudno



2 sesiwn ar-lein gyda RNIB am golli golwg ac ymddygiad



3 digwyddiad ymgynghori am gynhwysiant yn y celfyddydau

## Engage to Change



Cafodd 90 o bobl ifanc leoliadau gwaith



Dechreuodd 67 o bobl ifanc waith cyflogedig



Parhaodd 60 o bobl ifanc mewn gwaith cyflogedig



Cafodd 73 o bobl ifanc achrediad

## Ffrindiau Gigiau Cymru



Cafodd 25 pâr o Ffrindiau Gigiau eu paru



Recriwtiwyd 26 o wirfoddolwyr




Mae 54 o'r bobl sy'n cymryd rhan yn dal i aros am ffrind.



25 o digwyddiadau cymdeithasol

# Ein blwyddyn mewn lluniau



























